CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 26.08.2010 A GYNHALIWYD YN NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.30PM

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Rob Phillips yr aelodau i'r Cyfarfod.
Offrymwyd gweddi gan y Gyng. Williams.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Rob Phillips (Cadeirydd);
Dirprwy-Faer Robert (Hag) Harris (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Elsie Dafis;
John Davies; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Chris Thomas;
Selwyn Walters; Dorothy Williams & Derek Wilson.

Gohebydd y Wasg y Cambrian News Hannah Smith
Gohebydd y Wasg sy'n gweithio ar liwt ei hun Mr Carl Stringer

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tref Andrew Carter, Lynda Mason-George a Kistiah Ramaya.

3. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer Llambed – adroddwyd bod dyfodiad yr ardal gwahardd alcohol, o fewn y dref yn profi'n effeithiol. Mynegodd y Cyng. Greg Evans gonsyrn parthed yr adleoliad o bosibl, o broblemau, i ardaloedd nad oedd wedi derbyn y statws *Ardal Gwahardd Alcohol.*

4. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

4.1 **Bu i'r Cyng. Harris** ddatgan buddiant personol pan yn trafod y cais i ddarparu mainc ger 12 Bryn-yr-Eglwys. (Pwynt 6.8)

4.2 **Derbyniwyd cyngor gan Un Llais Cymru,** a ddosbarthwyd ymysg aelodau cyn y cyfarfod ynglŷn â datgan diddordeb personol a sy'n rhagfarnu. Y mae datgan diddordeb sy'n rhagfarnu'n aml yn brawf gwrthrychol a dylai aelodau ofyn, "Byddai aelod synhwyrol o'r cyhoedd ym meddiant y ffeithiau, o'r farn bod fy niddordeb personol mor arwyddocaol, y gallai rhagfarnu fy mhenderfyniad?"

5. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 29ain o Orffennaf 2010
Penderfynwyd bod cofnodion Gorffennaf yn gofnod cywir.

6. MATERION SY'N CODI

6.1 Sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Rheoli Traffig rhwng cynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a'r Cyngor Tref (CT)
Trefnwyd cyfarfod ar gyfer Ionawr 2011. Y mae angen un cynrychiolydd o'r CT a bydd aelodau o Gynghorau Cymuned yr ardal yn derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol hefyd. Crybwyllwd Neuadd Eglwys San Pedr fel lle addas i gynnal y cyfarfod. Cytunwyd i ofyn:

- Petai o leiaf 3 cynrychiolydd o'r CT yn bresennol;
- Petai'r cyfarfod yn cael ei gynnal ynghynt na Ionawr 2011: &
- Paham yr estynnir gwahoddiad i gynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned yr ardal.

6.2 Gwelliannau ar gyfer Sgwâr Harford
Ni gynhaliwyd y cyfarfod safle yn ystod Awst, fel y gobeithiwyd yng Ngorffennaf. Bydd yr Is-bwyllgor i gynnwys y Maer, Cyng. S.Walters, D.Williams a D.Wilson yn cyfarfod ar y safle yn ystod Medi a llunio adroddiad i'w ystyried ar gyfer y cyfarfod nesaf, i gynnwys rhestr o'r gwaith hanfodol. I fod yn gymwys ar gyfer y 30% cymhorthdal gan GSC bydd yn angenrheidiol i ddarpar gontractwyr gydymffurfio â Pholisi Caffaeliad y Cyngor Sir. Adroddwyd bod darnau arian yn cael eu taflu i'r Ffynnon gan rai aelodau'r cyhoedd a oedd o'r farn mai *Ffynnon Ddymuniad* oedd.

6.3 Arwydd Clos Glyndŵr: *wedi ei arddangos gan y Cyngor Sir***.**

6.4 Arwyddion eraill o fewn y dref:

- **Arwydd ar gyfer y ffin Sir Gâr/Ceredigion**: Y mae cytundeb ysgrifenedig wedi ei dderbyn oddi wrth y tirfeddianwr.
- **Arwyddion Bryn-yr-Eglwys**/**Penbryn** & Maesyderi/Gwêl y Creuddyn: disgwylir datblygiadau pellach gan y Cyngor Sir.

6.5 Polisi drafft TG y CT: Bu i'r Maer lunio'r Polisi TG drafft. Derbyniwyd yn ei gyfanwedd arwahân i un newidiad sef diddymu'r gair *Maer* a'i gyfnewid am Y *Pencampwr Dynodedig TG.*

6.6 Cyfeirydd ar gyfer Ymwelwyr: cais gan Lyfrgell y Dref am gopiau ychwanegol o'r Cyfeirydd ar gyfer ymwelwyr. Doedd dim ar gael o Swyddfa Menter Llambed. Gwirfoddolodd y Gyng. E. Dafis i lunio cyfeirydd ar gyfer ymwelwyr. Bydd yn cychwyn ar y gwaith ym mis Ionawr 2011.

6.7 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref: Y Cyng. Wilson i beintio'r hysbysfwrdd yn ystod y dyfodol agos.

6.8 Mainc tu allan i 12 Bryn-yr-Eglwys: gohebiaeth gan GSC yn mynegi na fyddai'n bosibl i adleoli un o'u meinciau sydd wedi ei lleoli wrth gefn yr hen ysgol gynradd i'r gwagle sydd wedi codi'n awr ger 12 Bryn-yr-Eglwys, (i'r lle ble gwaredwyd â'r hen fainc gan Dai Ceredigion) gan mai cyfrifoldeb Tai Ceredigion yw'r darn yma o dir bellach. Y mae Tai Ceredigion wedi mynegi eisoes, nad oes unrhyw gynlluniau ganddynt, ar hyn o bryd i leoli mainc newydd yn y fan yma.

6.9 Dolen ar gyfer y safle ar y we – hanes y dref – gwaith yn mynd yn ei flaen.

6.10 Glanhau Cysgodfannu Bws: gwobrwywyd y cytundeb o lanhau'r 4 cysgodfan bws y dref am £10/lloches bws bob yn ail fis i Mr Mark Jenkins. Y mae Mr Jenkins wedi gofyn tybed a fyddai'n bosibl, i sefydlu Debyd Uniongyrchol gan y CT i'w gyfrif banc.

6.11 Bydd cyflwyniadau'r CT ar gyfer y dyfodol yn cynnwys

- **Medi**: Gofal a Thrwsio Ceredigion: Mr Dafydd Pugh-Jones;
- **Hydref:** Elin Russell-Davies – Gweithwraig Ieuenctid All Gymorth; &

- **Thachwedd**: Mr Michael Freeman, Ceidwad Amgueddfa i drafod cynlluniau ar gyfer dyfodol yr amgueddfa fechan, ger Llyfrgell y dref.

6.12 **Cinio ar gyfer yr Anghenus 6.08.2010:** Diolchodd y Maer i bawb am eu cymorth. Diolchodd y Dirprwy-Faer i'r Gyng. D.Williams am baratoi a choginio'r bwyd. Penderfynwd i beidio â chymryd cyfrifoldeb am gydlynu'r ginio yn ystod mis Awst, yn ystod y dyfodol.

6.13 **Gwnaeth y Cyng. Walters** atgofio aelodau o'r angen difrifol i geisio dod o hyd i le addas ar gyfer storio dodrefn y CT ee cadeiriau, sydd wedi eu storio ar hyn o bryd yn adeilad y Swyddfa'r Cofrestrydd.

7. GOHEBIAETH

7.1 **Llythyr gan Mr A Williams** yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i gyflwyno Mr Leno Conti â gwobr, fel cydnabyddiaeth o'i ymrwymiad i'r dref dros ystod eang o flynyddoedd. Penderfynwyd i wneud y cyflwyniad yn ystod Seremoni Urddo'r Maer 2011- ni ddaethpwyd i ganlyniad parthed arysgrif ar y darian. Mae'r holl darianau ym meddiant y Gyng. D.Williams.
I hysbysu Mr Leno Conti o'r datblygiad hwn.

7.2 **Ymarfer Milwrol: "**Ymarfer Pilgrim's Progress" (9-16 Hydref 2010): Canolbarth Cymru ac ardal helaeth o Geredigion: er gwybodaeth.

7.3 **Canolfan Deuluol Llambed** CCB Nos Iau 9fed o Fedi 6pm, 6 Stryd San Thomas: er gwybodaeth.

7.4 **Tai Cantref**: 16.09.2010:6.30pm, Theatr Small World, Aberteifi. Enwebwyd y Cyng. Carter i fynychu'r cyfarfod.

7.5 **Un Llais Cymru:** Bydd Mr Lyn Cadwalader yn cymryd drosodd y swydd o Brif Weithredwr parhaol o awenau Mr Simon White, gan ddechrau ar y 6.09.2010.

7.6 **Bathodyn wedi ei bentio â llaw** ar gyfer tarianau'r CT; ar gael gan y Cwmni Cavalir Heraldy: er gwybodaeth.

7.7 **Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol:** Adroddiad Blynyddol 2009-10: ar gael bellach ar y safle ar y we: http:wales.gov.uk/topics/localgovernment/partnership/publications.

7.8 **Cais yn gofyn am lythyr o gefnogaeth** gan Eglwys San Pedr Llambed ar gyfer eu cais am gymhorthdal o gronfa'r Cynllun Grant Cymunedol CSC: y mae llythyr wedi ei bostio bellach.

7.9 **Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.**

8. MATERION CYNLLUNIO

8.1 **Caniatâd Cynllunio gan GSC**: Arddangos arwyddion: Banc Barclays PLC; Sgwâr Harford, Llambed. Rhif y Cais: A100390AV.

8.2 **Cais Cynllunio gan GSC**: lleoli cywasgydd aerdymheru newydd i'w leoli ger y 3 presennol ar y wal wrth ochr yr adeilad (yn wynebu'r clos glaswellt mewnol): Banc Barclays Plc, Sgwâr Harford, Llambed. Rhif y Cais: A100518.
Sylwadau a gyflwynwyd gan y Maer a'r Dirprwy-Faer, gan i'r CT dderbyn y cais rhwng cyfarfodydd, angen ateb erbyn yr 17eg Awst (Rheol 14 diwrnod). Pan gyfyd ceisiadau rhwng cyfarfodydd, dirprwyir swyddogaethau i unrhyw 2/3 gan ddewis o'r Maer/Dirprwy/ Maer y flwyddyn gynt i gydymffurfio â rheol y CSC i gyflwyno ymatebion o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad. Petai'n angenrheidiol derbyn sylw'r holl aelodau'r Cyngor Tref caiff gyfarfod arbennig ei drefnu, i'r diben hwnnw.
Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad.

8.3 **Cais Cynllunio gan GSC:** Arddangos arwyddion, Garej Gwasanaeth, Heol Y Gogledd, Llambed. Rhif y cais: A100556AV: Ymgeisydd: Mr Matt Primesight

Cyf, Ail Lawr, 116 Stryd Rhydychen Newydd, Llundain, WC1A1HH. Dyddiad ar lythyr y CSC10.08.2010: angen ymateb erbyn y 24ain Awst (y rheol 14 diwrnod). Ni gyflwynwyd ymateb gan y CT cyn y cyfarfod hwn o'r 26ain Awst. **Sylwadau i'w cyflwyno (wedi eu postio ar y 27ain Awst): Nid yw'r Cyngor Tref o blaid arddangos arwyddion, sydd heb fod yn uniongyrchol berthnasol i'r busnes.**

9. MENTER LLAMBED

Neuadd Fictoria: Adroddodd y Cyng. G.Evans eu bod yn aros archwiliad yn ymwneud â'r ymsuddiant.

10. CYLLID

10.1 **Y mae Mr Dave Smith wedi ymwneud â'r Archwiliad Mewnol Cyfrifon** y Cyngor Tref ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2009-10 ac fe'i gafwyd yn gywir. (Tâl £110) - Incwm a Gwarant 2009-10 (Atodiad 2 yn amgaeëdig).

10.2 **Arwyddwyd y ffurflen ar gyfer yr Archwilwyr Allanol BDO Stoy Hayward,** yn ystod y cyfarfod hwn gan y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

10.3 **Y mae cyfrifon y CT ar gyfer 2009-10 ar gael ar gyfer yr etholwyr** i'w harchwilio yn ystod mis Medi. Caiff y ffurflen ei hanfon at yr Archwilwyr Allanol at y 30ain o Fedi 2010.

10.4 **Derbyniwyd: ad-daliad TAW 2009-10:** £4,545.73.

10.5 **Garej Teifi Forge Cyf:** Clo ac allweddi (5) ar gyfer Cae Maesyderi: Ceidwad allweddi: Y Maer sydd yn y swydd; Cyng. Sirol Ifor Williams; Cyng. Derek Wilson, Eleri Thomas (Clerc) & Mr Lyn Jones.

10.6 **Garej Teifi Forge Cyf:** ffens newydd £7,675.00; TAW £1,343.13.

10.7 **Cinio ar gyfer yr Anghenus:** tâl am fwyd d/l y Gyng. D.Williams £47.73.

10.8 **2 Fin Sbwriel** – Cae Maesyderi 2x£43.53 = £87.06; TAW £15.23.

10.9 **Hirio Neuadd Fictoria:** Te Parti Ieuainc Mewn Ysbryd: 10.02/24.02/10.03/24.03/21.04/5.05/19.05/2.06/16.06/30.06 @£11 y sesiwn = £110.

10.10 **Cyflog y Clerc** Awst 2010 Gros: £632.27; Gwres/Trydan/Storio Awst 2010 £20.00.

10.11 **Hirio Neuadd yr Eglwys San Pedr 26.08.2010:** £15.00 (Cyfarfod y CT)

10.12 **Penderfynwyd peidio** a chyfrannu tuag at yr elusen Dyslecsia Cymru sy'n ymroi i godi £10,000 ar gyfer y ddarpariaeth o brawf sgrinio Cymraeg ar gyfer plant ysgol cynradd rhwng 6.5 ac 11 oed.

10.13 **Y mae £25,000.00** o arian wrth gefn y CT wedi ei drosgwlyddo o'r Cyfrif Cymdeithas Adeiladu Abertawe(0.1% llog o'r 1af Fedi 2010) i Fond Cyfnod Blwyddyn Banc y Barclays (2.35% o log yn flynyddol)

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 Llwybrau Cerdded + Parc-yr-Orsedd

11.1.1 Y mae'r anfonebau a'r gwaith papur wedi eu cyflwyno i GSC parthed y Cyllun Llwybrau Cymunedol 2010 (swm o £1,060, 75% cymhorthdal). Cafodd y gwaith ei ymgymryd gan Mr E Williams.

11.1.2 Parc-yr-Orsedd

Cwrs Hyfforddi Archwilio Meysydd Chwarae Gweithredol: 25/26/27 Hydref 2010. Bydd y Cyng. Chris Thomas yn mynychu'r cwrs am dâl o £275 + TAW.

11.1.3 **Y mae angen ail-glymu bin** i'r llawr a hefyd cloriau newydd ar gyfer y biniau: y Cyng. C Thomas i glustnodi sylw pellach i'r mater.

11.1.4 Heb eu cyflawni cyn belled:

- **Masg ar gyfer y gât**: Mynedfa Heol y Gogledd:
- **Atgyweirio'r gât ar fynedfa Bryn-yr-Eglwys** *&*
- **Dod o hyd i** amnewidiad i'r asyn pren:

Y mae Mr Alec Page yn ymwybodol o'r 3 pwynt uchod.

11.1.5 Archwiliad Meysydd Chwarae yn flynyddol CSC: yn cael ei gario allan ar ddiwedd Medi gan Digley Associates am dâl o £45 + TAW.

11.2 Camerau TCC

Adroddiad Misol Gorffennaf 2010: Bu yna 3 cais i arsylwi ar ddeunydd digidol yn ymwneud â difrod troseddol (6.07.2010); lladrad (20.07.2010) ac ymosodiad (24.07.2010)

11.3 Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi

Cofnodion ynghlwm o'r cyfarfod o'r 21ain o Orffennaf.

12. U.F.A.

12.1 **Adroddodd y Gyng. Davies-Evans fod fan "transit" heb dreth wedi ei adael ar y Cwmins.** Y mae'r mater wedi ei adrodd at sylw'r heddlu eisoes. Cytunodd y Dirprwy-Faer i adrodd y mater at sylw'r CSC fel *cerbyd wedi ei adael.*

12.2 **Y mae'r bin ailgylchu ar Stryd y Farchnad yn orlawn ac angen ei wacau.** Y Clerc i gysylltu â Mr Ian Thunderball sy'n gwacau'r biniau ailgylchu ar ran y CT.

12.3 **I ofyn i GSC tybed a** fyddai'n bosibl iddynt leoli bin sbwriel, gyferbyn â Bwthyn Troedrhiw, Heol y Gogledd, Llambed.

12.4 **Adroddwyd bod cynlluniau ar y gweill i gyflwyno** dulliau newydd o gasglu sbwriel tyaid, gan GSC i ddechrau ym mis Tachwedd 2010.

12.5 **Holodd y Gyng Dafis** tybed a oedd mapiau ar gael i ddangos eiddo Tai Ceredigion. Adroddwyd nad oedd mapiau o'r fath ar gael ar hyn o bryd. Dywedodd y Cyng. Harris y gellir cyflwyno ymholiadau iddo ef, yn rhinwedd ei swydd, fel Cadeirydd Tai Ceredigion.

Bu i'r Cyfarfod ddirwyn i ben am 8.45pm.

13. DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

13.1 **Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi**: Nos Fercher 15 o Fedi am 7.00pm yn Swyddfa Menter Llambed.

13.2 **Cyfarfod Misol nesaf:** Nos Iau 30ain o Fedi 2010 am 7.30pm, Neuadd Eglwys San Pedr.

----------(Arwyddwyd/Dyddiad)